CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
16 Medi 2014, Neuadd Talwrn
am 7:30 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng C McGregor, D Morgan, D Pritchard, W Williams, O Davies, W Vaughan, G D Williams, R G Parry (Cyngor Sir) a rhai o'r cyhoedd	
YMDDIHEURIADAU: Cyng A Wyn, M Lees, A Williams, D Roberts, D ap Rhobert, D Rees (Cyngor Sir), N Roberts (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng C McGregor. Cynigodd y Cadeirydd croeso i pawb. Dechreuwyd gyda cyfarfod agored i drafod cais cynllunio 23C319 - cais amlinellol ar gyfer codi annedd gyda'r holl materion wedi'u gadw'n ol ar dir ger Cae Drain, Llangwyllog. Mae nifer o trigolion Llangwyllog yn gwrthwynebu y cais. Penderfynwyd cynnal cyfarfod cyhoeddus wythnos nesaf yn Gosen, Llangwyllog. Bydd y Clerc yn trefnu y cyfarfod ac yn cynnig gwahoddiad i trigolion Llangwyllog, Cyng D Pritchard, A Wyn ac O Davies.
	Y Cyfarfod misol:
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Cyng D Pritchard (cais cynllunio 23C319)
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 15 Gorffennaf 2014. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng D Morgan yn cynnig a Cyng W Williams yn eilio
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Gor-yrru Talwrn a Llangwyllog** - Darllenwyd ebost gan y Cyngor Sir. Ni fydd Gan Bwyll yn cymryd camau gorfodi ond bydd yn pasio i'r Heddlu am eu hystyried. Darllenwyd llythyr hefyd gan Miss Megan Pritchard ar rhan trigolion Llangwyllog yn dweud bod y sefyllfa wedi gwaethygu ers ei llythyr dyddiedig 19.02.13. Bydd y Clerc yn trosglwyddo y mater unwaith eto at y Cyngor Sir.
4.2	**Arwydd arafu Talwrn** - Bydd y Cyngor Sir yn trefnu bod y Gang Gymunedol yn torri y tyfiant o gwmpas yr arwydd yn y dyfodol agos.
4.3	**Commonwealth War Graves Commission** - Darllenwyd llythyr gan yr Eglwys yng Nghymru yn dweud er bod yr eglwys wedi cau, mae'r Eglwys yng Nghymru dal yn rheoli y fynwent.
4.4	**Mynwent Llanddyfnan** - Mae'r clerc wedi bod i'r fynwent. Nid yw'r ffensys wedi torri ac mae'r wal wedi cael ei drwsio
4.5	**Cornel Slieve Donard** - mae'r Cyngor Sir wedi gwneud y gwaith
4.6	**Cefniwrch (arwydd pentref)** - Mae'r Cyngor Sir yn gwrthod gosod arwydd oherwydd bod Cefniwrch ddim ar y map OS.
	Llofnod…….Cadeirydd 21.10.14

5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
	34C648D Cais o dan Adran 73 i ddileu amodau (15) (16) a (17) (Cod Cartrefi Cynaladwy) o caniatad cynllunio rhif 34C648A (Cais am faterion a gadwyd yn ol ar gyfer codi annedd a chreu mynedfa newydd i geir) ar dir ger Pwros, Rhosmeirch (mater i Cyngor Tref Llangefni)
	34C331A Cais llawn ar gyfer dymchwel y modurdy presennol ynghyd a chodi modurdy newydd ac ail leoli y tanc olew yn Pen y Bryn, Rhosmeirch (mater i Cyngor Tref Llangefni)
	44C305B/RE/SCR barn sgrinio ar gyfer gosod un twrbin gwynt 15kw gyda diamedr rotor hyd at 13.1m, uchder hwb hyd at 15.43m a uchder blaen unionsyth hyd at uchafswm o 21.97m ar dir Tre Wyn, Maenaddwyn - (cefnogi y cais)
	23C319 Cais amlinellol ar gyfer codi annedd gyda'r holl materion wedi'u gadw'n ol ar dir ger Cae Drain, Llangwyllog - penderfynwyd cefnogi trigolion Llangwyllog gweler Uchod
	Priffyrdd
5.1	Gor-yrru Llangwyllog (gweler 4.1)
5.2	Cefniwrch (gweler 4.6)
5.3	Arwydd arafu Talwrn (gweler 4.2)
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Yr Eglwys yng Nghymru (gweler 4.3)
7	**MATERION ARIANNOL**
7.1	Penderfynwyd talu y canlynnol: G Hughes £150 (maes parcio Talwrn), H Hughes Cyfieithu £36.40.
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Derbynwyd adroddiad yr Archwiliwr Allanol
8.2	Cyng M Lees. Mae Cyng Lees wedi symud i ffwrdd i fyw dros dro. Cytunwyd i gadw ei sedd ar agor am 6 mis.
8.3	Ethol Is-Gadeirydd - Penderfynwyd gofyn i Cyng Ann Williams ystyried derbyn y swydd.
8.4	Mae Cyng D Morgan wedi derbyn ceisiadau i ychwanegu enwau ar y gofeb yn Talwrn. Bydd y Clerc yn gwneud ymholiadau ynghylch pwy all wneud y gwaith.
8.5	CoRWM (Wastraff Niwclear) - Soniodd Cyng Morgan am y cyfarfod yn Tresysgawen. 'Roedd y cyfarfod yn "bler" - dim cofnodion, ddim yn canolog a ddim yn cyhoeddus. Mae'r ymgynghoriad yn symud ymlaen.
8.6	BT (Fibre Optic) - Dywedodd Cyng W Vaughan bod BT wedi gosod "Fibre Optic" yn Talwrn ers chwe mis ond nid yw y gwasanaeth yn gweithio. Bydd y clerc yn cysylltu a BT.
	Llofnod…….Cadeirydd 21.10.14